Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL
**Pennaeth/Head:**
Mr Matthew H T Evans
029 2033 3090
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk
www.glantaf.cymru

22 Awst 2025

Annwyl Riant / Warcheidwad,


*Bl13 yn dathlu canlyniadau cryf*

**Dechrau Tymor Medi 2025:** Mae'n bleser ysgrifennu atoch ar ddechrau blwyddyn wrth i ni edrych ymlaen at groesawu disgyblion yn ôl i Glantaf. Bydd Bl7 a Bl12 yn dechrau'r tymor ar ddydd Mercher, 3ydd o Fedi gyda'r holl ddisgyblion eraill yn dechrau'r tymor newydd ar ddydd Iau, 4ydd o Fedi.

**Safon Uwch, BTEC, UG, TGAU a chanlyniadau galwedigaethol:** Roeddem yn falch iawn o ddathlu llwyddiant ein myfyrwyr yn eu canlyniadau arholiadau. O ran Blwyddyn 13, sicrhaodd y mwyafrif helaeth o ddisgyblion leoedd yn eu prifysgol dewis cyntaf neu ar gyfer lleoliad y flwyddyn nesaf. Roedd ein canlyniadau Safon Uwch yn arbennig, gyda 97% o fyfyrwyr yn derbyn o leiaf 2 radd A2 A*-E a 20% o fyfyrwyr yn ennill o leiaf 3 A*/A. Mae'r graddau hyn yn ardderchog, ac yn brawf o ymroddiad aeddfed a gwaith gofalus myfyrwyr yn ogystal â chefnogaeth staff. O ran Bl 11, roedd yn wych gweld disgyblion yn dathlu gyda 87% yn derbyn o leiaf 5 A*-C; a chanran rhyfeddol o 41% o fyfyrwyr yn ennill o leiaf 5 A*/A. Llongyfarchiadau hefyd i fyfyrwyr Bl12 ar eu canlyniadau UG a myfyrwyr Blwyddyn 10 a dderbyniodd ganlyniadau mewn nifer o bynciau. Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion ar y canlyniadau hyn a dymunwn yn dda iddynt i'r dyfodol gan ddiolch iddynt am eu cyfraniad cynnes i fywyd yn Glantaf.


*Llongyfarchiadau Bl11!*


*Llwyddiant celf Tamsin James*

**Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam:** Cawsom ein calonogi'n fawr wrth weld nifer fawr o fyfyrwyr Glantaf yn ymweld â'r Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam, yn mwynhau'r maes, yn gweithio'n galed neu yn aros ar faes ieuenctid Maes B. Llongyfarchiadau cynnes hefyd i Cian Glyn, Bl 9 a Tom Davies, Bl 11 am eu llwyddiant ar brif lwyfan yr Eisteddfod. Yn dilyn *Tafwyl* yn gynharach eleni, mae'r achlysuron bywiog yma'n dangos dyfnder a chyfoeth diwylliant cyfoes Cymru ac rydym mor falch bod ein myfyrwyr yn ymgysylltu â'r egni a'r bwrlwm yn y dathliadau cenedlaethol hyn. Roeddem hefyd yn falch iawn o nodi llwyddiant cwilt ffabrig Tamsin James '*Stormy Dusk*' yn nathliad ieuenctid yr haf yn yr Academi Celf Frenhinol yn Llundain. Llongyfarchiadau hefyd i Catrin ac Elin Matthews ar eu llwyddiant nofio fel rhan o gystadleuaeth haf Nofio Cymru ac i Elin am ei llwyddiant fel rhan o Academi Triathlon Cymru. Rydym yn annog ein myfyrwyr i ymuno mewn gweithgareddau allgyrsiol, i fwynhau'r cyfleoedd sydd ar gael ac yn gofyn yn garedig am eich cefnogaeth i adeiladu eu hyder a'u defnydd o'r Gymraeg ar bob cyfle! *Ymlaen Glantaf!*

**Partneriaeth newydd Glantaf a Bro Edern:** Rydym yn falch o ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd hon mewn partneriaeth newydd gydag Ysgol Gymraeg Bro Edern. O fis Medi ymlaen, byddaf yn gweithio fel Pennaeth Gweithredol dros y ddwy ysgol ac rwy'n croesawu'n gynnes Mr Dyfrig G Rees a fydd yn dechrau ar ei rôl newydd fel Pennaeth Ysgol o fis Medi ymlaen, gyda chefnogaeth Mrs Catrin Arnopp fel Dirprwy Bennaeth. Hefyd yn ymuno â'r Tîm Arwain bydd Mrs Bethan Davies (Arweinydd Canolfan Glantaf); Mr Dafydd Owens (Amserlen a Chwricwlwm) a Mrs Ffion Berry (Agweddau at Ddysgu ac Ymddygiad). Gellir gweld rhestr lawn o'r cyfrifoldebau hyn yma: [Tim Arwain]


*Mr Dyfrig Rees, Mr Matthew Evans, Mrs Catrin Arnopp*

Rydym hefyd yn croesawu aelodau newydd o staff a fydd yn dechrau gyda ni yng Nglantaf ym mis Medi.   Maent yn cynnwys, Mr Bo Leung (D&T); Ms Kirsty Lewis (Drama a Chymraeg); Mr Gronw Griffith; Ms Angharad Llwyd; Mr Dylan Williams; Mr Wil Davies (Cymraeg); Mr Hefin Dafydd (Gwyddoniaeth); Ms Sara Prosser (Addysg Gorfforol); Mrs Sian Morris (Mathemateg); Mrs Gwenllian Mitchell (Canolfan Glantaf), Mr Ben Palit (Saesneg) yn ogystal â chroesawu yn ôl Ms Aimee Moule (Arweinydd Cynnydd a Lles Bl 8) a Mrs Rhiannon Kemp-Morse (Ast Crefydd) o gyfnod mamolaeth. Rydym hefyd yn croesawu Ms Seren Bean, Mr Jac Rees; Mr Gruff A Williams; Ms Non Drake; Mr Greg Evans; Mr Gruff Williams; Mr Harry Phillips; Mr Tom Cummins; Mr Gruff Llywelyn a Mr Lewys Thomas sy'n ymuno â'n tîm cymorth dysgu.  *Croeso mawr!*

**Cinio Blwyddyn 7:** Er mwyn cofrestru disgyblion Bl7 ar ein system *ParentPay*, gofynnwn yn garedig i Bl7 ddod â phecyn cinio ar gyfer eu hwythnos gyntaf yn yr ysgol.  Erbyn dydd Llun 8fed Medi, dylai'r holl gyfrifon fod yn weithredol.  Yna bydd proses sefydlu ar gyfer Bl 7 bob yn ail wythnos: disgyblion 7Dewi a 7Dyfrig mynediad i'r ffreutur (wythnos 2, Llun 8fed Medi) disgyblion yn 7Illtud a 7Teilo (wythnos 1, Llun 15fed Medi). Bydd gan bob disgybl Bl 7 fynediad dyddiol i'r ffreutur o fis Hydref.

**Diogelwch ar y ffyrdd a beiciau:**  Gofynnwn yn garedig i chi beidio â pharcio na chasglu / gollwng yn agos at gatiau'r ysgol.  Rydym yn annog disgyblion i seiclo i'r ysgol gan ddefnyddio lonydd beicio a Llwybr y Taf.  Dylai pob disgybl wisgo helmed ac mae angen cloi beiciau gan ddefnyddio ein raciau beiciau ac NID ar reiliau ysgol, lle mae beics wedi eu dwyn yn y gorffennol.

**Gwisg ysgol, ffonau symudol a phrydlondeb ar gyfer cofrestru:** Diolch yn fawr am eich cefnogaeth ynglŷn â gwisg ysgol gywir wrth i ni groesawu disgyblion yn ôl ar gyfer y tymor newydd. Rydym hefyd yn atgoffa disgyblion na ddylid defnyddio ffonau symudol yn ystod y diwrnod ysgol.  Gofynnwn hefyd am eich cefnogaeth i beidio ag anfon negeseuon neu wneud galwadau i'ch plant yn ystod amser ysgol.  Bydd yn rhaid i ddisgyblion sy'n defnyddio eu ffonau gyflwyno eu dyfais i'r dderbynfa a'i gasglu ar ddiwedd y dydd.  Yn olaf, atgoffwn bod angen i bob disgybl gyrraedd y campws erbyn 8.30am.  Bydd yn rhaid i blant sy'n cyrraedd yn hwyr gofrestru yn y Dderbynfa a chyflwyno eu ffôn symudol am weddill y dydd.  Rydym yn diolch i chi am eich cefnogaeth yn y materion hyn.

**Gwelliannau i'r campws:** Rydym yn falch iawn bod nifer o welliannau wedi'u gweithredu ar y campws, gan gynnwys gosod system wresogi newydd yn y blociau addysg gorfforol a gwyddoniaeth, 2 loches newydd ar gyfer pob tywydd, peintio a thacluso nifer o ystafelloedd dosbarth ynghyd â champfa hyfforddi newydd sbon.   Edychwn ymlaen i ddigwyddiadau dechrau'r tymor:

| | |
|---|---|
| 8 Medi | Lluniau Blwyddyn 7 a 12: lluniau unigol a grŵp blwyddyn |
| 9 Medi | Dadorchuddio ein murluniau newydd Glantaf – seremoni wahoddedig am 9am |
| 10 Medi | Ras traws gwlad rhyng-lysol |
| **11 Medi** | **Noson Wobrwyo Chwaraeon am 7pm (tocynnau ar ParentPay o 2/9/25)** |
| 15 Medi | Noson Wybodaeth i Rieni Bl 12 ar *Teams* am 5pm (Cymraeg) a 6pm (Saesneg) |
| **1 Hydref** | **HMS Ysgol** (Diwrnod hyfforddi clwstwr staff – dim ysgol i ddisgyblion) |

**Cysylltwch â ni / Gwefan:** Os ydych chi'n ymuno â ni fel rhiant newydd, rydym yn eich cyfeirio at ein gwefan: Ysgol Glantaf . Cliciwch yma am fanylion cyswllt ar gyfer ein Cymorth Cynnydd a Lles, yn ogystal â'n: Adroddiad Blynyddol 2024-25.  Wrth i ni ddechrau blwyddyn newydd, diolch yn fawr am eich cefnogaeth barhaus a chofiwch gysylltu â ni os oes unrhyw ymholiad neu bryder.

Yn gywir

MHTEvans

Matthew H T Evans
Pennaeth Gweithredol
Ysgolion Cyfun Cymraeg Glantaf a Bro Edern



*Llochesi newydd ar y campws*